

# Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 25/06/2018 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

Angela Russell  
John Brinley Jones  
Rhian Hughes-Jones  
(Clerc)

Rhodri Ellis Owen  
Barbara Warren

Thomas Victor Jones  
William Roger Jones

William Penri Jones  
Clair Russell Griffiths

## 1. Ymddiheuriadau

Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Greta Hughes ac Iwan Hughes

## 2. Datgan Buddiant Ariannol neu Personol

Dim

## 3. Cofnodion Mehefin 2018

Wedi eu derbyn yn gywir ac wedi eu arwyddo.

## 4. Unrhyw Fater Brys

**Toiledau ar gau** – Mae'r toiledau edi eu fandaleiddio. Cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd yw delio a hyn ond bydd y Clerc yn cysylltu hefo Cyngor Gwynedd er gwybodaeth.

Cynigwyd i holi plismon Abersoch i weld os oes yna unrhyw siawns o ffeindio'r sawl sydd yn gyfrifol.

**Blodau** – Yn dilyn salwch yr ymgymerwr arferol nid oes cynlluniau edi eu gwneud ar gyfer plannu blodau. Mae Victor Jones wedi gwirfoddoli i gydlynu'r gwaith.

## 5. Etholiadau

Mae'n amserol i gynnal etholiadau o fewn y Cyngor Cymuned. Cynigwyd y gadair I Angela Russel ac wedi ei chario yn unfrydol.

Cynigwyd gohirio'r hyn at bwyllgor Gorffennaf gan fod Greta Hughes yn absennol o'r cyfarfod.

## 6. Gwefan y Cyngor Cymuned

Bydd y Clerc yn adrodd yn mynychu hyfforddiant y wefan gydag Arfon Hughes o Cradur.com. Roedd yr hyfforddiant yn ddefnyddiol a chynhwysfawr. Mae'r wefan yn hawdd yw defnyddio ac yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei angen i'r Cyngor Cymuned.

Bydd rhaid gwneud adolygiad o'r cynnwys a lluniau; penderfynwyd defnyddio'r wybodaeth a lluniau sydd yn y daflen gwybodaeth. Mae'r wybodaeth i gyd ar gael yn electroneg, mae'r Clerc am edrych i mewn i hyn ac adrodd yn ôl.

## 7. Archwiliad Mewnol

Dim diweddariad gan John Harris – wedi ei ohirio at bwyllgor mis Gorffennaf.

## 8. Lwfans Cynghorwyr

Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones. Eglurwyd bod y Cyngor angen mabwysiadu rheoliadau newydd cyn gellir wneud dim. Mae'r Cyngor yn cytuno I mabwysiadu'r rheoliadau (Gweler Atodiad 1).

Eglurwyd mae'r ffordd symlaf I ymateb I'r rheoliadau yw I gynnig lwfans I'r Cynghorwyr Cymuned (er nad oes rhaid os yw'r PREASEPT yn llai na £33,000, ond bydd rhaid gwneud apel yn erbyn y canllawiau)a bod yn rhaid i aelodau arwyddo datganiadau os ydynt yn dymuno gwneud cais am lwfans a'r pheidio.

# Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

## Cofnodion Cyfarfod 25/06/2018 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

### 9. Canllawiau Cynllunio Atodol

Mae'r Cyngor Cymuned wedi derbyn Ymgynghoriad cyhoeddus gan Gyngor Gwynedd i Ganllawiau Cynlluniau Atodol;

- Cyfleusterau a Llety I Dwristiaid
- Cymysgedd Tai

Mae'r dogfennau yn swmpus ac felly penderfynwyd y pwyllgor cymryd amser yw darllen a gyrru sylwadau yn syth i'r Clerc. Rhoddir hawl i'r Clerc llenwi'r ffurflen ar ran y Cyngor Cymuned.

### 10. Materion Ombwdsman

Diweddariad gan Penri Jones – Mae'r ombwdsman wedi llythyru'r aelodau yn nodi bod y mater wedi ei ddatrys a bod y cynghorwyr wedi eu clirio. Nodwyd bod yr aelodau yn hapus i'r wybodaeth fod yn gyhoeddus.

### 11. GDPR – Diogelu data

Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones – Mae eisoes penderfyniad wedi ei wneud sydd yn newid gair yn y rheoliadau GDPR newydd sydd yn syml yn galluogi i Gynghorau Cymuned ddewis os ydynt am gael Swyddog Diogelu Data ai pheidio.

Mae'r pwyllgor eisoes wedi gwneud penderfyniad i enwebu Swyddog Diogelu data ac ni ellir newid penderfyniad felly mae angen symud ymlaen hefo'r ICO. Bydd Rhian Hughes-Jones yn trefnu aelodaeth hefo'r ICO ac yn trefnu hyfforddiant hefo'r Swyddog Diogelu Data.

### 12. Gwynedd Digidol

Gwybodaeth gan Rhian Hughes-Jones – Mae'r Cyngor Cymuned wedi derbyn gohebiaeth gan Gwynedd Digidol sydd yn gynnig cyfle i'r Cyngor Cymuned wneud cais i gymryd rhan mewn prosiect i ddarparu Wi-Fi cymunedol. Mae'r pwyllgor yn teimlo bod y signal ffon yn ddigonol yn yr ardal.

### 13. Materion Gweinyddol

Nodwyd y bydd angen archebu gliniadur i'r Clerc gallu gwneud ei gwaith yn hwylus. Mae'r pwyllgor wedi rhoi caniatâd i'r Clerc chwilio am brisiau.

Nodwyd bod cyfrif yn Copi ym Mhwlheli ar gyfer nwyddau desg.

Nodwyd hefyd bod y gwaith papur i gyd gan John Harris a bydd rhaid trefnu i fyn yw nol cyn gynted a bod modd.

Bydd rhaid hefyd gwneud trefniadau i ddidoli, storio a gwaredu'r gwaith papur.

Cytunwyd bod Cytundeb y Clerc yn ddigonol a chaiff ei arwyddo.

### Ceisiadau Cynllunio

#### **C18/0467/38/LL**

Gwaith peiriannyddol i sefydlogi lletur arfordirol a gwaith cysylltiedig i dynnu coed sy'n rhan o grwp Gorchymun Gwarchod Coed

Pentir, Ystad Glynywedd, Llanbedrog

### Taliadau wedi eu cymeradwyo

**Cyflog y cler**c - Rhian Hughes-Jones

Mis Ebrill, Mai a Mehefin 2018 **£999.99**

**AA DEFIB** – Padiâu a batri i'r

diffibriliwr **£108.00**

### Gohebiaeth - Dim

Clerc – Rhian Hughes-Jones • [cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com](mailto:cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com) •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd -

# Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 25/06/2018 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

## Atodiad 1

### Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Adroddiad Blynyddol

#### 13. Taliadau i Aelodau o Gyngorau Tref a Chymuned

##### 13.1

Mae'r Panel wedi bod yn gyfrifol am gydnabyddiaeth ariannol i gyngorau tref a chymuned ers Mesur 2011 a daeth ei benderfyniadau cyntaf ar gyfer aelodau o'r fath i rym ym mlwyddyn ariannol 2013/2014. Mae Adroddiadau Blynyddol dilynol wedi datblygu syniadau ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol i gyngorwyr tref a chymuned, gan ganiatáu hyblygrwydd i gwrdd â chyfrifoldebau priodol.

##### 13.2

Mae'r Panel yn cydnabod bod amrywiadau eang o ran daearyddiaeth, cwmpas a graddfa ar draws y 735 o gyngorau tref a chymuned yng Nghymru, o gyngorau cymuned bychain â gwariant cymharol isel ac ychydig o gyfarfodydd i gyngorau tref mawr ag asedau a chyfrifoldebau sylweddol.

##### 13.3

Ers cyhoeddi ei adroddiad diwethaf, cyfarfu'r Panel â 104 o Gyngorwyr a Chlercod a oedd yn cynrychioli 68 o Gyngorau Tref a Chymuned mewn 4 cyfarfod ledled Cymru. Fe wnaeth y trafodaethau gadarnhau'r farn gyffredin bod y swyddogaethau y mae cyngorau unigol yn eu cyflawni'n amrywio'n sylweddol. Roedd ymchwil ddilynol a gyflawnwyd gan y Panel i incwm a gwariant cyngorau a chymarebau rhwng cyngorwyr a'r boblogaeth yn ategu'r amrywiad eang hwn ymhellach.

##### 13.4

Mae'r Panel o'r farn bod yn rhaid bod cyfrifoldebau ac atebolrwydd cyngorwyr yn amrywio hefyd yn unol â'r amrywiad eang hwn. Mae cyngorwyr sy'n rheoli incwm neu wariant o £1m a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau arwyddocaol, gan gynnwys rhai a allai fod wedi cael eu dirprwyo gan brif gyngorau, yn gweithredu mewn amgylchedd mwy cymhleth o lawer na chyngor â chyllideb flynyddol o lai na £30,000.

##### 13.5

Felly mae'r Panel yn cynnig ffurfio grwpiau o Gyngorau Tref a Chymuned I adlewyrchu'r gwahaniaethau hyn. Archwiliwyd ystod o fesurau y gallai'r Panel eu defnyddio fel sail i unrhyw grwpiau ac mae'n ystyried mai 4 grŵp sy'n seiliedig ar lefel incwm neu wariant, pa un bynnag yw'r uchaf, sydd fwyaf priodol. Mae defnyddio ffigurau incwm neu wariant yn rhoi adlewyrchiad gwell o lefelau gweithgarwch cyngor na chymarebau poblogaeth, y canfu'r Panel nad oes cydberthynas rhyngddynt ac incwm neu wariant. Mae hefyd yn hawdd i gyngorau ddeall i ba grŵp y maent yn perthyn.

##### 13.6

Yn yr adroddiad drafft, cynigiodd y Panel ystod o daliadau gorfodol ar gyfer cyngorau. Fel rhan o'r ymgynghoriad ar yr adroddiad drafft, derbyniodd y Panel adborth defnyddiol gan gyngorau ag incwm neu wariant o lai na £30,000, oedd yn dangos yr effaith anghymesur y byddai hyn yn ei chael ar eu praesept a'u costau gweinyddol. Mae'r Panel wedi ystyried hyn ac wedi addasu ei drefn grwpio, fel y nodir yn Nhabl 7 isod. Wrth greu'r tri grŵp hyn mae wedi adlewyrchu'r ffaith fod cyngorau ag incwm neu wariant sy'n fwy na £200,000 yn ddarostyngedig i adran 40 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; bod incwm neu wariant oddeutu 50% ohonynt o dan £30,000; a bod y cyngorau hynny sydd ag incwm neu wariant rhwng £30,000 a £200,000 yn debygol o fod ag ystod fwy o gyfrifoldebau. Mae'r

# Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

## Cofnodion Cyfarfod 25/06/2018 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

Panel wedi adlewyrchu gofynion gwahanol y cynghorau ym mhob un o'r tri grŵp hyn, o safbwynt taliadau, fel y nodir yng ngweddill yr adroddiad hwn. Bydd y Panel yn ystyried trefn wahaniaethol bellach ar sail y grwpiau hyn yn y dyfodol.

**Tabl 7: Grwpiau Cynghorau Tref a Chymuned**

Grŵp Cynghorau Tref a Chymuned	Incwm neu Wariant yn 2017-18
A	£200,000 ac uwch
B	£30,000 - £199,999
C	Islaw £30,000

13.7

Mae'r Panel o'r farn nad yw Cynghorwyr Tref a Chymuned yn wirfoddolwyr gan eu bod, yn dilyn y broses ddemocrataidd, wedi derbyn cyfrifoldebau ffurfiol a'u bod i gyd yn wynebu rhywfaint o atebolrwydd, mewn perthynas â swyddogaethau gan y Cyngor y maent yn eu rhedeg. Hefyd, mae'r Panel am I unrhyw aelod sydd ag anghenion cymorth personol a/neu gyfrifoldebau gofalu allu cyflawni ei rôl. Er mwyn adlewyrchu hyn, mae'r Panel yn gorchymyn talu cyfraniad at gostau a threuliau aelodau cynghorau yn Grwpiau A a B; ac awdurdodi talu cyfraniad at gostau a threuliau sydd ar gael i aelodau cynghorau yng Nghrwp C fel y'u nodir yn y penderfyniadau 44 a 45. Mae'r Panel hefyd yn gorchymyn ad-dalu cost gofal i holl aelodau Cynghorau Cymuned a Thref fel y'u gosodir allan yn y penderfyniad 51.

13.8

Mae'r Panel hefyd o'r farn bod Cynghorau yng Ngrŵp A yn debygol o fod â nifer fwy o bwyllgorau, sy'n adlewyrchu eu lefel gweithgarwch; ac mae felly'n gorchymyn hefyd bod taliad yn cael ei wneud am gyflawni Uwch-rolau fel y nodir ym Mhenderfyniad 45. Lle nad oes gorchymyn, mae pob penderfyniad yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o'r cynghorau tref neu gymuned hyn wneud penderfyniad ffurfiol yn flynyddol. Gall Cyngor fabwysiadu unrhyw rai neu'r cyfan o'r penderfyniadau nad ydynt yn cynnwys gorchymyn ond os yw'n gwneud penderfyniad o'r fath, rhaid iddo fod yn berthnasol i'w holl aelodau.

13.9

Ym mhob achos, gall unrhyw aelod unigol wneud penderfyniad personol I ddewis rhoi heibio rhan neu'r cyfan o'r hawl i unrhyw un o'r taliadau hyn trwy hysbysu swyddog priodol y Cyngor yn ysgrifenedig.

13.10

Os bydd aelod o'r cyngor yn sefyll i lawr yn ystod y flwyddyn, mater i'r Cyngor yw penderfynu a ddylid adennill unrhyw daliadau neu beidio.

13.11

Ni all aelodau sy'n cael uwch-gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 gan brif gyngor gael unrhyw daliad gan Gyngor Tref neu Gymuned, ac eithrio costau teithio a chynhaliaeth ac ad-daliadau o gostau gofal. Fodd bynnag, nid yw hyn yn eu hatal rhag dal uwch-swydd.

### **Taliadau tuag at gostau a threuliau**

13.12

Mae'r Panel yn gorchymyn talu cyfraniad at gostau a threuliau aelodau cynghorau yn Grwpiau A a B; ac awdurdodi talu cyfraniad at gostau a threuliau sydd ar gael i aelodau cynghorau yng Nghrwp C. Nid oes angen derbyniadau ar gyfer y taliadau hyn.

# Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

**Cofnodion Cyfarfod 25/06/2018 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog**

Penderfyniad 44: Rhaid i gynghorau tref a chymuned yng Ngrwpiau A a B sicrhau bod taliad o £150 y flwyddyn ar gael i bob un o'u haelodau am gostau a ysgwyddir mewn perthynas â defnyddio'r ffôn, technoleg gwybodaeth, defnyddiau traul ac yn y blaen.

Penderfyniad 45: Mae gan gynghorau tref a chymuned yng Ngrŵp C yr awdurdod i sicrhau bod taliad o £150 y flwyddyn ar gael i bob un o'u haelodau am gostau a ysgwyddir mewn perthynas â defnyddio'r ffôn, technoleg gwybodaeth, defnyddiau traul ac yn y blaen.

## Uwch-rolau

13.13

Mae'r Panel yn cydnabod y gall rolau penodol ar gyfer aelodau yn enwedig o fewn y cynghorau tref a chymuned mwy, er enghraifft cadeirydd pwyllgor, olygu mwy o gyfrifoldeb. Mae hefyd yn debygol y bydd gan y cynghorau mwy nifer fwy o bwyllgorau, sy'n adlewyrchu eu lefel gweithgarwch. Mae'r Panel felly wedi penderfynu bod yn rhaid i gynghorau yng Ngrŵp A wneud taliad am isafswm o un uwch-rôl ac uchafswm o bum uwch rôl. Mae gan gynghorau yng Ngrwpiau B, C a D yr awdurdod i dalu hyd at bum taliad cyfrifoldeb am rolau penodedig.

Penderfyniad 46: Rhaid i gynghorau tref a chymuned yng Ngrŵp A sicrhau bod taliad blynyddol o £500 yr un ar gael i isafswm o 1 ac uchafswm o 5 aelod I gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau.

Penderfyniad 47: Mae gan gynghorau tref a chymuned yng Ngrwpiau B neu C yr awdurdod i wneud taliad blynyddol o £500 yr un i hyd at 5 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau os hawlir hwnnw.

## Ad-dalu costau teithio a chostau cynhaliaeth

13.14

Mae'r Panel yn cydnabod y gall fod costau teithio a chynhaliaeth sylweddol sy'n gysylltiedig â gwaith aelodau o gynghorau tref a chymuned, yn enwedig lle mae ardal y cyngor yn fawr yn ddaearyddol a/neu wrth gyflawni dyletswyddau y tu allan i'r ardal.

Penderfyniad 48: Mae gan gynghorau tref a chymuned yr awdurdod i dalu costau teithio pob aelod ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy\*. Rhaid I daliadau o'r fath fod yn gostau gwirioneddol teithio ar gludiant cyhoeddus neu lwfansau milltiroedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel y nodir isod:

- 45c y filltir - hyd at 10,000 o filltiroedd yn y flwyddyn.
- 25c y filltir - dros 10,000 o filltiroedd.
- 5c y filltir y teithiwr a gludir ar fusnes yr awdurdod.
- 24c y filltir – beiciau modur preifat.
- 20c y filltir – beiciau.

\* Lle mae aelod sydd ar fusnes swyddogol yn cael ei gludo gan yrrwr sy'n drydydd parti (ddim yn un o aelodau na swyddogion yr awdurdod hwnnw), gall yr aelod hawlio milltiroedd yn ôl y cyfraddau a ragnodir ac unrhyw ffioedd parcio neu dollau ar yr amod bod yr awdurdod wedi'i argyhoeddi bod yr aelod wedi ysgwyddo'r costau hyn.

# Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

**Cofnodion Cyfarfod 25/06/2018 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog**

Penderfyniad 49: Os yw cyngor tref neu gymuned yn penderfynu bod angen arhosiad dros nos ar gyfer dyletswydd benodol, gall roi awdurdod i ad-dalu treuliau cynhaliath i'w aelodau yn ôl y cyfraddau uchaf a nodir isod, ar sail hawliadau gyda derbynebaw:

- Iwfans o £28 y cyfnod o 24 awr ar gyfer prydau bwyd, gan gynnwys brecwast pan na fydd wedi'i gynnwys.
- £200 – Llundain dros nos.
- £95 – rhywle arall dros nos.
- £30 – aros gyda ffrindiau a/neu deulu dros nos.

## **Digolledu am golled ariannol**

13.15

Mae'r Panel wedi cadw'r cyfleuster sy'n galluogi cynghorau i dalu iawndal i'w haelodau pan fyddant yn dioddef colled ariannol o ganlyniad i fod yn bresennol i gyflawni dyletswyddau cymeradwy.

Penderfyniad 50: Mae gan gynghorau tref a chymuned yr awdurdod i dalu iawndal am golled ariannol i bob un o'u haelodau, lle mae colled o'r fath wedi cael ei hysgwyddo mewn gwirionedd, o ganlyniad i fod yn bresennol i gyflawni dyletswyddau cymeradwy fel a ganlyn:

- Hyd at £34.00 am bob cyfnod nad yw'n fwy na 4 awr.
- Hyd at £68.00 am bob cyfnod sy'n fwy na 4 awr ond nad yw'n fwy na 24 awr

## **Ad-dalu costau gofal**

13.16

Diben yr adran hon yw galluogi pobl ag anghenion cymorth personol a/neu gyfrifoldebau gofalu i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol fel aelod o awdurdod. Mae'r Panel o'r farn na ddylai'r costau gofal ychwanegol sy'n ofynnol i gyflawni dyletswyddau cymeradwy atal pobl rhag dod yn aelod neu barhau i fod yn aelod o awdurdod na chyfyngu ar eu gallu i gyflawni'r rôl.

13.17

Mae'r Panel yn cydnabod y materion sy'n gysylltiedig â chyhoeddi'r traul dilys hwn. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr opsiynau ar gyfer cyhoeddi a nodir yn Atodiad 4. I gefnogi aelodau presennol ac i roi anogaeth ar gyfer amrywiaeth mae'r Panel yn erfyn ar awdurdodau i hybu ac annog mwy o aelodau i hawlio'r ad-daliad o Gostau Gofal.

Penderfyniad 51: Rhaid i bob cyngor tref a chymuned ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol (a roddir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol hyd at uchafswm o £403 y mis. Rhaid i'r ad-daliad fod am y costau ychwanegol a ysgwyddwyd gan aelodau er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau cymeradwy. Dim ond ar ôl dangos derbynebaw gan y gofalwr y dylid ad-dalu'r costau.

## **Honorariwm i Bennaeth Dinesig / Dirprwy Bennaeth Dinesig**

13.18

Gan gydnabod bod rhai meiri a chadeiryddion cynghorau tref a chymuned a'u dirprwyon yn brysur iawn yn ystod eu blwyddyn yn y swydd, mae'r Panel wedi penderfynu y dylai cynghorau tref a chymuned fod ag awdurdod i dalu

# Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

## Cofnodion Cyfarfod 25/06/2018 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

honorariwm ar gyfer y rolau hyn. Yn ei adroddiadau blynyddol blaenorol ni phenderfynodd y Panel ar uchafswm taliad i feiri/cadeiryddion a'u dirprwyon.

13.19

Fe wnaeth cyfarfodydd ymgynghori'r Panel eleni gadarnhau nad yw'r mwyafrif o gynghorau tref a chymuned yn gwneud unrhyw daliadau neu eu bod yn gwneud taliadau bach i'w harweinwyr dinesig a bod rhai ohonynt yn adrodd ar y gyllideb a ddyrennir ar gyfer swyddogaethau dinesig a gwariant dinesig yn hytrach na'r swm a delir fel uwch-gyflog personol i'r unigolyn.

13.20

Dim ond y swm a delir i'r meiri/cadeiryddion fel honorariwm sydd o bwys i'r Panel, a hwnnw'n swm i'w ddefnyddio neu ei gadw yn ôl eu disgrisiwn. Mae hwn ar wahân i gyllideb ar gyfer gweithgareddau maer/cadeirydd. Mae'r Panel wedi penderfynu y bydd yr uchafswm y gellir ei dalu i gadeirydd/maer Cyngor tref neu gymuned yn £1,500. Yr uchafswm y gellir ei dalu i faer/cadeirydd yn y ffordd hon fydd £500.

Penderfyniad 52: Mae gan gynghorau tref a chymuned yr awdurdod i ddarparu taliad Pennaeth Dinesig i faer/cadeirydd y cyngor hyd at uchafswm o £1,500 I gyflawni swyddogaethau'r swydd honno. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 ar gyfer costau a threuliau a'r uwch-gyflog o £500 os hawlrir y rhain.

Penderfyniad 53: Mae gan gynghorau tref a chymuned yr awdurdod i ddarparu taliad Dirprwy Bennaeth Dinesig i ddirprwy faer/dirprwy gadeirydd y Cyngor hyd at uchafswm o £500 i gyflawni swyddogaethau'r swydd honno. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 ar gyfer costau a threuliau a'r uwch-gyflog o £500 os hawlrir y rhain.

### Gofynion o ran cyhoeddusrwydd

13.21

Ceir gofyniad i gynghorau tref a chymuned gyhoeddi manylion yr holl daliadau a wneir i aelodau unigol mewn Datganiad o Daliadau blynyddol. Rhaid i'r wybodaeth hon gael ei chyhoeddi ar hysbysfyrdau a/neu wefannau cynghorau (gyda mynediad rhwydd) a chael ei darparu ar gyfer y Panel trwy'r e-bost neu drwy'r post fan bellaf erbyn 30 Medi yn dilyn diwedd y flwyddyn y mae'r taliadau'n ymwneud â hi. Mae'r Panel yn tynnu sylw at y gofynion a nodir yn Atodiad 4. Mae'r Panel yn nodi gyda phryder nad yw nifer sylweddol o gynghorau wedi cydymffurfio â'r gofyniad hwn.